Jack

"Ar ôl sawl wythnos o gwblhau'r broses asesu, cafodd Jack ddiagnosis o Awtistiaeth. Aeth Jack a'i rieni i'r cyfarfod adborth, ni ddywedodd Jack lawer yn y cyfarfod hwn, ond cafodd ei rieni bwl emosiynol, fe wnaethant ddisgrifio eu hemosiynau fel rhyddhad o deimlo y byddai hyn yn helpu Jack i symud ymlaen gyda'i ddyfodol. Fe wnaethon nhw hefyd ddisgrifio eu dicter a'u rhwystredigaeth am nad oedd ei anghenion wedi'u diwallu trwy gydol ei gyfnod yn yr ysgol uwchradd ac roedden nhw'n dymuno y byddai rhywun wedi ei ddeall ef a'u deall hwythau. Roedden nhw'n teimlo fel bod rhywun yn gwrando arnyn nhw.



Ar ôl y cyfarfod adborth, lluniwyd gwybodaeth ac ynghyd â'm cydweithwyr, ysgrifennais adroddiad gydag argymhellion ar ffyrdd y gallai Jack gynorthwyo ei hun, yn ogystal â ffyrdd y gallai eraill ei gynorthwyo. Fodd bynnag, wrth ei ysgrifennu, myfyriais ar y daith a gafodd yn ystod plentyndod a pha daith sydd ganddo bellach o'i flaen fel oedolyn.

Yn lleol nid oes unrhyw wasanaeth y gallwn gyfeirio ato a all ddarparu dull cydweithredol o gefnogi Jack. Ar y pwynt hwn, nid yw Jack yn bodloni'r meini prawf ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl neu wasanaethau anableddau dysgu.

Mae'n ymddangos bod gwasanaethau Awtistiaeth Oedolion yn gallu cynnig gwybodaeth a darnau byr o ymyrraeth, ac er y gall hyn fod yn fuddiol i rieni ddeall sut mae awtistiaeth yn effeithio ar Jack, oherwydd mudandod dethol Jack a'i bryder cymdeithasol, mae'n annhebygol o allu ymgysylltu â'r gwasanaeth hwn."